# Set Criw Porth Tywyn

## Codi Angor




*Trefniant Meurig Williams o gân J. Glyn Davies*

1. Mae hi'n llenwi'n gyflym hogie bach, Mae'n cwrs ni am y cefnfor.
   Rhaid i ni'n bellach ganu'n iach, Pryd cawn ni godi angor?
2. Y mae'r Blue Peter yn ei le, Mae'n cwrs ni am y cefnfor.
   Cawn weled eto Groes y De, Pryd cawn ni godi angor?
3. Mae gwledydd pell tu draw i'r môr, Mae'n cwrs ni am y cefnfor.
   Mae heulwen yn San Salvador, Pryd cawn ni godi angor?
4. Bydd yno llanw 'mhen yr awr, Mae'n cwrs ni am y cefnfor.
   Mae arna'i bunt i Wil Siop Fawr, Pryd cawn ni godi angor?
5. Ffarwel fy nghariad, hir yw'r daith, Mae'n cwrs ni ar y cefnfor.
   Rwyf wedi gaddo priodi saith, Pryd cawn ni godi angor?

## Y Pibydd Du




*Trefnwyd gan Meurig Williams*

# Criw Porth Tywyn




*Alaw a geiriau gan Carwyn Tywyn*

1. Criw Porth Tywyn, gwelwch chi   O ai-o, O ai-o
   Rhwng y môr a'r mynydd fry  O ai-o, O ai-o   O ai-o, O ai-o
2. Dacw'r fforest ar y dde  O ai-o, O ai-o,    Traeth Cefn Sidan ac Eglwys Penbre, O ai-o..
3. Hwylio draw i Benrhyn Gwyr  O ai-o, O ai-o;  Draw i Ddyfnaint erbyn yr hwyr  O ai-o..
4. Dacw'r goleudy gwyn a choch  O ai-o, O ai-o  A'r stondin grempog, a'r stondin cig moch
5. Hwylio'n ôl i fewn i'r doc  O ai-o, O ai-o,  A'r lads yn yfed o dan y cloc  O ai-o, O ai-o; O ai.
6. Criw Porth Tywyn, gwelwch chi  O ai-o, ... Rhwng y môr a'r mynydd fry  O ai-o....

# Y Lili




*Trefnwyd gan Meurig Williams*